

# **Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog**

## **Protocol Cynllunio**



**Cymeradwywyd ar 30 Ionawr 2004**

**Adolygwyd, diweddarwyd a chymeradwywyd ar 20 Mai 2010**

**Adolygwyd, diweddarwyd a chymeradwywyd ar 28 Medi 2012**

**Adolygwyd, diweddarwyd a chymeradwywyd ar 22 Mai 2015**

**Adolygwyd, diweddarwyd a chymeradwywyd ar 9 Ebrill 2019**

**Dyddiad Adolygu Nesaf: 2020**

# PROTOCOL CYNLLUNIO AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL BANNAU BRYCHEINIOG

<b>CYNNWYS</b>	<b>Tudalen</b>
<b>1.0 Cyflwyniad</b>	<b>3</b>
Diben	3
Cymhwys	4
Cod Ymddygiad	5
<b>2.0 Lobio</b>	<b>5</b>
<b>3.0 Aelodaeth o Awdurdod Lleol arall</b>	<b>7</b>
<b>4.0 Ymweliadau Ffurfiol â Safleoedd</b>	<b>7</b>
<b>5.0 Cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio a Hawliau Tramwy (CMaHT)</b>	<b>10</b>
<b>6.0 Penderfyniadau sy'n Groes i Argymhellion Swyddogion a/neu'r Cynllun Datblygu</b>	<b>13</b>
<b>7.0 Cynigion Datblygu gan Aelodau/Swyddogion</b>	<b>14</b>
<b>8.0 Hyfforddi a Monitro</b>	<b>16</b>
<b>9.0 Cwynion/Cadw Cofnodion</b>	<b>16</b>

# Protocol Cynllunio

## 1.0 Cyflwyniad

### Diben

1.1 Mae'r Protocol Cynllunio hwn wedi cael ei fabwysiadu gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog i reoli'r modd y mae'n cyflawni ei swyddogaeth gynllunio. Mae'r Protocol yn cynnwys yr amcanion canlynol:

- Rhoi arweiniad i Aelodau a Swyddogion yr Awdurdod ynghylch ymdrin â materion sy'n gysylltiedig â chynllunio
- Rhoi arweiniad mwy manwl ynghylch y safonau sydd i'w cymhwyso'n benodol mewn perthynas â materion cynllunio
- Cymhwyso rheolau mewnol i'r ffordd y bydd yr Awdurdod yn ymdrin â materion cynllunio
- Hysbysu defnyddwyr posibl y gwasanaeth cynllunio, ac aelodau'r cyhoedd yn gyffredinol, ynghylch y safonau a fabwysiedir gan yr Awdurdod wrth gyflawni ei swyddogaeth gynllunio.

1.2 Mae'r Protocol Cynllunio'n bodoli ar wahân i ac yn ychwanegol at God Ymddygiad yr Awdurdod ar gyfer Aelodau, a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod ar 27 Mehefin 2008 ac a adolygwyd ac a fabwysiadwyd yn 2016, er y gall rhai darpariaethau yn y Protocol ymdrin i ryw raddau â materion y mae'r Cod Ymddygiad hefyd yn ymdrin â hwy. Ei nod yw adlewyrchu fersiwn ddiweddaraf y Gymdeithas Llywodraeth Leol o'i chanllawiau "Probity in Planning – for councillors and officers" (2013).

1.3 Mae'n ddefnyddiol ein bod yn cynnwys y detholiad canlynol o ganllawiau'r Gymdeithas Llywodraeth Leol yma -

*One of the key aims of the planning system is to balance private interests in the development of land against the wider public interest. In performing this role, planning necessarily affects land and property interests, particularly the financial value of landholdings and the quality of their settings. Opposing views are often strongly held by those involved.*

*Whilst members must take account of these views, they should not favour any person, company, group or locality, nor put themselves in a position where they may appear to be doing so. It is important, therefore, that planning authorities make planning decisions affecting these interests openly, impartially, with sound judgement and for justifiable reasons.*

1.4 Cafodd y Protocol diwygiedig hwn ei adolygu, ei ddiwygio a'i gymeradwyo gan yr Awdurdod llawn ar 9 Ebrill 2019. Mae'n gymwys o'r dyddiad hwnnw.

1.5 Mae darpariaethau'r Protocol Cynllunio hwn wedi'u bwriadu i sicrhau, pryd bynnag fo Aelodau'n ystyried mater sy'n ymwneud â'r swyddogaeth gynllunio, bod yr holl benderfyniadau'n cael eu gwneud am resymau priodol sy'n ymwneud â chynllunio ac

yn cael eu gwneud mewn modd cyson ac agored ac y ceir bod Aelodau sy'n gwneud penderfyniadau o'r fath yn atebol am y penderfyniadau hynny. Mae'r Protocol Cynllunio wedi'i fwriadu hefyd i gynorthwyo Aelodau i ymdrin â chysylltiadau gan ymgeiswyr/datblygwyr a thrydydd partion ac mae wedi'i fwriadu i sicrhau bod y broses benderfynu'n gadarn. Yn y ffordd yma cyfyngir ar y posibilrwydd o her gyfreithiol neu gŵyn yn erbyn yr Awdurdod, ei Aelodau neu ei swyddogion unigol o ran gwneud penderfyniadau priodol ym maes cynllunio.

- 1.6 Er bod gan Aelodau gyfrifoldeb personol am sicrhau eu bod wastad yn ymddwyn o fewn gofynion y protocol hwn, dylid ymgynghori â Swyddogion yr Awdurdod, gan gynnwys y Swyddog Monitro, os yw Aelodau'n ansicr o gwbl sut i gymhwyso gofynion y protocol dan unrhyw amgylchiadau.

## Cymhwyso

- 1.7 Dylai'r canllawiau canlynol gael eu dilyn gan yr holl Aelodau nid dim ond mewn perthynas â llunio a mabwysiadu'r polisiâu yn y cynllun datblygu ond hefyd mewn perthynas â swyddogaethau rheoli datblygu (ceisiadau cynllunio o bob math gan gynnwys caniatâd adeilad rhestredig, tystysgrifau defnydd cyfreithlon, hysbysiadau a phenderfynu ynghylch yr holl faterion gorfodi a.y.b.). Mae'n gymwys i holl gyfarfodydd yr Awdurdod wrth ymdrin â materion o'r fath ac mae'n gymwys i ymddygiad Aelodau hyd yn oed cyn bod cais neu gynnig ffurfiol yn cael ei gyflwyno.

- 1.8 Gallai methu â chydymffurfio â'r Protocol Cynllunio hwn arwain at, neu chwarae rhan sylweddol yn, y canlynol

- ymchwiliad i gwynion am gamweinyddu neu honiadau sy'n ymwneud â methu ag ymlynu wrth y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
- cwynion i Bwyllgor Safonau'r Awdurdod
- trafodion adolygiad barnwrol yn yr Uchel Lys
- apelïadau i Lywodraeth Cymru (e.e. mewn perthynas ag unrhyw achos o ddyfarnu costau)
- cwynion am ymddygiad swyddogion.

Gall methiant honedig gan Aelod i gydymffurfio â'r Protocol hwn gael ei atgyfeirio at Bwyllgor Safonau'r Awdurdod. Dylid ymdrin â methiannau honedig eraill trwy weithdrefn gwynion yr Awdurdod.

- 1.9 Mae'r Protocol hwn yn berthnasol i Aelodau a Swyddogion sy'n dod yn rhan o weithredu'r system gynllunio – nid yw, felly, yn gyfyngedig i Gynllunwyr Gwlad a Thref Proffesiynol ac Aelodau o Awdurdod y Parc Cenedlaethol a'r Pwyllgor Cynllunio, Mynediad a Hawliau Tramwy (CMAHT). Mae gweithrediad llwyddiannus y system gynllunio'n dibynnu ar ymddiriedaeth ar y ddwy ochr a dealltwriaeth gan y ddwy ochr am rolau ei gilydd. Mae hefyd yn dibynnu ar drefn lle mae'r naill a'r llall yn sicrhau eu

bod yn gweithredu mewn ffordd sydd nid yn unig yn deg ac yn ddiuedd ond y gellir gweld yn glir ei bod yn deg ac yn ddiuedd hefyd.

## Cod Ymddygiad

- 1.10 Mae'n rhaid cydymffurfio trwy gydol y broses benderfynu â Chod Ymddygiad yr Awdurdod ar gyfer Aelodau sy'n cynnwys gofynion gorfodol mewn perthynas â buddiannau personol. Dylai Aelodau roi sylw hefyd i ganllawiau a gyhoeddwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Ni ddylai buddiannau personol Aelodau (gan gynnwys buddiannau'r rhai y maent yn byw gyda hwy, y maent yn cael eu cyflogi ganddynt neu y mae ganddynt gysylltiad personol agos arall â hwy) ddylanwadu ar benderfyniadau ac ni ddylai penderfyniadau gael eu gwneud oherwydd pwysau di-alw-amdano gan ymgeiswyr, asiantau neu drydydd partïon megis Cyngorau Tref a Chymuned. Mae angen osgoi rhoi argraff hyd yn oed bod dylanwadau o'r fath wedi effeithio ar benderfyniadau.
- 1.11 Aelodau unigol sy'n gyfrifol am ddatgan buddiant personol. Mae gan Swyddogion gyfrifoldeb tebyg. Os ceir ansicrwydd, dylai Aelodau geisio cyngor ynghylch cymhwyso'r Cod gan y Swyddog Monitro. Mae hysbysu'n gynnar ynghylch buddiannau datgelu'n arbennig o bwysig i'w gwneud yn bosibl ystyried y materion yn briodol. Mae'r Protocol Cynllunio hwn yn nodi rheolau pellach sy'n gymwys i'r broses cynllunio yn yr Awdurdod.
- 1.12 Yn ychwanegol at God Ymddygiad yr Awdurdod, dylai Aelodau fod yn ymwybodol y dylai Swyddogion Cynllunio ymddwyn a rhoi cyngor yn unol â Chod Ymddygiad Proffesiynol y Sefydliad Brenhinol Cynllunio Tref (RTPI). Mae'n rhaid i'r Swyddogion hynny sy'n aelodau o RTPI ymlynu wrth y cod hwn a bydd y rhai nad ydynt yn aelodau eto'n cael eu hannog i ddod yn aelodau a byddant yn ymgyrraedd at y cod.

## 2.0 LOBÏO

2.1 Mae'r adran hon wedi'i bwriadu i sicrhau –

- y cynhelir safonau uchel pan fo penderfyniadau cynllunio'n cael eu gwneud;
- nad amherir ar uniondeb y broses benderfynu, mewn gwirionedd nac o ran canfyddiad, trwy lobïo'r Aelodau hynny a fydd yn gwneud penderfyniadau;
- bod y ffaith bod lobïwyr\* wedi cysylltu'n cael ei chofnodi, a bod unrhyw sylwadau a wnaed i Aelodau'n rhan o'r wybodaeth gyhoeddus sy'n arwain at unrhyw benderfyniad.

(\*yn y protocol hwn mae "lobïwr", "person (personau)/parti (partïon) sydd â buddiant" yn cynnwys yr ymgeisydd, cefnogwyr, gwrthwynebwyr, asiantau, aelodau o'r teulu a'r sawl sy'n perthyn trwy briodas a.y.b.).

2.2 Er mwyn osgoi peryglu eu sefyllfa trwy wneud penderfyniad cyn eu bod wedi cael yr holl wybodaeth berthnasol, mae'n rhaid i Aelodau –

- Gymryd gofal yn ystod unrhyw gyswilt â phartïon sydd â buddiant i sicrhau nad yw'r un parti na'r llall yn dylanwadu arnynt mewn modd di-alw-amdano ac i osgoi ei gwneud yn hysbys ymlaen llaw pa un a ydynt yn cefnogi ynteu'n gwrthwynebu'r cynnig. Os yn bosibl dylai unrhyw gyfarfodydd gydag Aelodau gael eu trefnu a'u mynychu gan Swyddog Cynllunio priodol a byddant yn cynnwys Cadeirydd y Pwyllgor CMAHT neu ei gynrychiolydd;
- Peidio â chynghori partïon sydd â buddiant na'u hasiantau ynghylch y tebygolrwydd y bydd cynigion cynllunio'n cael eu derbyn;
- Cyfyngu eu barn i roi cyngor gweithdrefnol a gwrando ar bryderon a safbwyntiau;
- Cyfeirio lobiwyr at Swyddogion Cynllunio, a darparu eu sylwadau yn ysgrifenedig i'r Swyddog Cynllunio Perthnasol a fydd yn cynnwys cyfeiriad at eu sylwadau, lle y bo'n berthnasol, yn eu hadroddiad;
- Peidio â threfnu cefnogaeth o blaid nac yn erbyn cynnig cynllunio;
- Peidio â lobiö Aelodau eraill;
- Peidio â rhoi pwysau ar Swyddogion i wneud argymhelliad penodol yn eu hadroddiad;
- Peidio â chylchredeg papurau answyddogol i Aelodau eraill na chyfarfodydd y Pwyllgor CMAHT;
- Peidio ag ymweld â safle'r cais gyda phartïon sydd â buddiant na'u cynrychiolwyr;
- Peidio â chaniatáu i'r rhai y maent yn byw gyda hwy, y maent yn cael eu cyflogi ganddynt neu y mae ganddynt gysylltiad personol agos arall â hwy i ddylanwadu mewn modd di-alw-amdano ar eu penderfyniad.

2.3 Lle mae Aelod sy'n rhan o'r broses o benderfynu ynghylch materion cynllunio wedi cael ei lobiö, dylai hysbysu'r Pwyllgor perthnasol ei fod wedi cael ei lobiö a chan bwy. Fodd bynnag, mae'n rhaid i Aelodau weithredu er budd y cyhoedd ac nid ar gais unrhyw unigolyn na buddiant. Os yw'r Aelod yn teimlo nad oes ganddo feddwl agored mwyach mewn perthynas â mater cynllunio, neu fod ei ddiueddrwydd wedi cael ei beryglu, dylai weithredu fel pe bai ganddo fuddiant sy'n rhagfarnu a gadael y cyfarfod. Os yw Aelod yn teimlo'i fod wedi cael ei lobiö'n ormodol, dylai gysylltu â'r Swyddog Monitro i gael cyngor.

2.4 Os yw Aelod sy'n rhan o'r broses o benderfynu ynghylch materion cynllunio wedi ymateb i gael ei lobiö trwy ddadlau o blaid dull gweithredu penodol cyn cyfarfod Pwyllgor, ac y gall fod amgylchiadau lleol arbennig lle ystyrir bod hyn yn briodol, dylai'r Aelod hwnnw weithredu fel pe bai ganddo fuddiant sy'n rhagfarnu a gadael y cyfarfod.

2.5 Efallai y bydd Aelodau sy'n rhan o'r broses o benderfynu ynghylch materion cynllunio sy'n eu cael eu hunain mewn sefyllfa lobiö'n dymuno cymryd camau i atal hyn rhag digwydd, ac egluro, er y gallant wrando ar yr hyn sy'n cael ei ddweud, y cyfyngir arnynt rhag mynegi barn bendant na bwriad i bleidleisio'r naill ffordd neu'r llall.

2.6 Lle mae Aelodau sy'n rhan o'r broses o benderfynu ynghylch materion cynllunio'n bresennol mewn cyfarfodydd cyhoeddus, gallant wrando ar y ddadl ar faterion cynllunio presennol a gallant roi cyngor ynghylch materion megis y gweithdrefnau sy'n

berthnasol wrth benderfynu ynghylch cais, ystyried datblygu anawdurdodedig a.y.b. Lle mae Aelodau'n cael ei bod yn briodol mynegi barn am fater mewn cyfarfodydd o'r fath gan felly ddynodi eu bod wedi penderfynu ynghylch y cais er enghraifft, dylent weithredu wedi hynny fel pe bai ganddynt fuddiant sy'n rhagfarnu a gadael y cyfarfod tra bo'r mater yn cael ei drafod.

- 2.7 Lle mae Aelod yn cael sylwadau ysgrifenedig uniongyrchol mewn perthynas â mater cynllunio, cynnig ar gyfer cynllun lleol, mater gorfodi a.y.b., dylai'r Aelod drosglwyddo'r ohebiaeth cyn gynted ag sy'n ymarferol i Swyddog yr Achos Cynllunio er mwyn i'r sylwadau hynny allu cael eu cymryd i ystyriaeth mewn unrhyw adroddiad i'r Pwyllgor. Nid yw hyn yn berthnasol i gylchlythyrau sy'n dynodi bod copïau wedi cael eu hanfon i'r Awdurdod ei hun hefyd.
- 2.8 Lle ceir perthynas deuluol uniongyrchol neu drwy briodas mewn cysylltiad â chais cynllunio neu bolisi/cynnig yn y cynllun datblygu, dylai Aelodau weithredu fel pe bai ganddynt fuddiant sy'n rhagfarnu a gadael y cyfarfod.

### **3.0 Aelodaeth o Awdurdod Lleol arall**

- 3.1 Gall Aelod sydd hefyd yn aelod o gyngor tref, cymuned neu gyngor arall drafod mater cynllunio ar y lefel honno.
- 3.2 Os yw'r Aelod wedi rhoi'r argraff yng nghyfarfod y cyngor arall, neu yn wir mewn cyfarfod arall, ei fod wedi gwneud ei benderfyniad yn barod yn ystod y drafodaeth neu yn ystod y broses o bleidleisio ar fater cynllunio arbennig cyn clywed yr holl wybodaeth a chyngor a gyflwynwyd yn ddiweddarach yng nghyfarfod yr Awdurdod, yna mae'n debygol yr ystyrir ei fod wedi penderfynu ynghylch y mater rhag blaen (h.y. bod ganddo feddwl caeëdig).
- 3.3 Dan yr amgylchiadau hynny, ni ddylai'r Aelod gymryd rhan yng nghyfarfod y Pwyllgor CMaHT lle caiff y mater cynllunio penodol hwnnw ei drafod, oherwydd gallai cyfranogiad o'r fath arwain at gŵyn am gamweinyddu neu her gyfreithiol o fath arall i benderfyniad y Pwyllgor.

### **4.0 Ymweliadau Ffurfiol â Safleoedd**

- 4.1 Dim ond mewn perthynas ag unrhyw gais cynllunio neu gais cysylltiedig na phenderfynwyd yn ei gylch, y bydd y Pwyllgor yn penderfynu yn ei gylch, y dylid cynnal ymweliadau ffurfiol â safleoedd. Fel rhan o'r broses benderfynu ffurfiol gall y Pwyllgor CMaHT benderfynu y dylid cynnal ymweliad ffurfiol â safle os yw'n gwbl fodlon bod un o'r amgylchiadau canlynol yn berthnasol:
  - Yr ystyrir, cyn unrhyw siarad cyhoeddus mewn perthynas â'r cynnig, bod y cais yn galw am farn Aelodau yn seiliedig ar nodweddion y safle neu ddehongliad gweledol sydd heb fod yn amlwg o ffotograffau, sleidiau ac ati – e.e. effaith ar amwynder; effaith ar ddiogelwch priffyrdd a llifoedd traffig; effaith ar gymeriad yr ardal; effaith

ar gymeriad neu leoliad adeilad rhestredig neu ardal gadwraeth; effaith ar dreflun neu dirwedd; a/neu

- Fod y cynnig yn ymwneud â math o ddatblygiad sy'n newydd ac a all olygu bod angen ymweld â sefydliad presennol yn ogystal â safle'r cais er mwyn deall y goblygiadau cynllunio posibl; a/neu
- Fod gwaith datblygu wedi dechrau neu wedi cael ei gwblhau a hwnnw'n waith a fyddai fel arfer yn golygu, pe gwrthodid caniatâd cynllunio, y byddai'n ofynnol cymryd camau gorfodi ac y byddai ymweliad â'r safle o gymorth i benderfynu ynghylch buddioldeb camau o'r fath.

4.2 Mewn amgylchiadau eithriadol, yn ôl disgrisiwn y Rheolwr Treftadaeth a Chynllunio mewn ymgynghoriad â'r Prif Weithredwr ac fel y cytunwyd â Chadeirydd neu Ddirprwy Gadeirydd y Pwyllgor CMAHT, pan fo'r mater cynllunio yn un arbennig o ddadleuol a/neu pan fo o faint sy'n golygu y byddai'n debygol o gael effaith sylweddol ar yr ardal o safbwynt harddwch naturiol, treftadaeth ddiwylliannol, asedau amgylcheddol, trafndiaeth neu les y cyhoedd ac y byddai cynnal ymweliad â'r safle o fudd sylweddol ac amlwg, bydd ymweliad â'r safle yn cael ei drefnu CYN cyfarfod o'r Pwyllgor CMAHT lle bwriedir trafod cais cynllunio neu gais cysylltiedig arall na phenderfynwyd yn ei gylch.

4.3 Bydd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor CMAHT yn cofnodi'r rheswm dros yr ymweliad arfaethedig â'r safle. Gall unrhyw aelod o'r Pwyllgor CMAHT wneud cais am ymweliad ffurfiol â safle, ar yr amod bod y cais am ymweliad yn cyd-fynd â'r meini prawf uchod.

Bydd unrhyw Siaradwyr Cyhoeddus sy'n bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor CMAHT lle mae'r Aelodau wedi penderfynu y bydd ymweliad â safle'n cael ei gynnal yn cael dewis rhwng rhoi eu cyflwyniadau yn y cyfarfod hwnnw neu'u rhoi yng nghyfarfod dilynol y Pwyllgor CMAHT.

Dylai'r ymweliad â'r safle gael ei fynychu gan y Cadeirydd a/neu'r Dirprwy Gadeirydd, yr Aelod a gynigiodd y dylid cynnal ymweliad â'r safle, o leiaf un Aelod a benodwyd gan lywodraeth leol ac un Aelod a benodwyd gan Lywodraeth Cymru. Gall holl aelodau eraill y Pwyllgor CMAHT sydd ar gael fynychu hefyd. Nid oes yn rhaid i Aelodau fynychu'r ymweliad â'r safle er mwyn cael pleidleisio ar y penderfyniad ynghylch cais cynllunio neu gais cysylltiedig yng nghyfarfod y Pwyllgor CMAHT.

4.4 Dylai'r Rheolwr Cynllunio a Threftadaeth a'r Gwasanaeth Cymorth Cynllunio drefnu ymweliadau o'r fath â safleoedd. Dylai'r llythyr/neges e-bost sy'n hysbysu'r Aelodau ynghylch dyddiad a lleoliad yr ymweliad ffurfiol â'r safle gynnwys y rheswm dros yr ymweliad, gwybodaeth am y man cyfarfod, ac atodiad sy'n cynnwys cynllun o'r man cyfarfod os oes angen. Bydd yr ymweliad â'r safle'n cael ei gynnal ar yr un diwrnod â chyfarfod nesaf y Pwyllgor CMAHT neu cyn hynny. Bydd disgwyl i'r Gwasanaeth Cymorth Cynllunio sicrhau bod mynediad diogel at y safle ar gael i Aelodau a Swyddogion ar y dydd, yn unol ag asesiad risg a gwblhawyd yn flaenorol.



- 4.5 Bydd yr ymgeisydd a/neu'r asiant yn cael eu hysbysu ynghylch y materion canlynol –
- bod ymweliad â'r safle'n mynd i gael ei gynnal
  - mai diben yr ymweliad â'r safle yw y dylai Aelodau feddu ar y ddealltwriaeth lawnaf am natur y safle ac effeithiau amgylcheddol y datblygiad arfaethedig; ac
  - na fydd yr Aelodau'n derbyn unrhyw sylwadau gan yr ymgeisydd nac unrhyw sylwadau gan drydydd parti os byddant yn bresennol yn yr ymweliad â'r safle.
- 4.6 Lle byddai eglurhad o gymorth, a chyda chytundeb Cadeirydd neu Ddirprwy Gadeirydd y Pwyllgor CMAHT, bydd yr ymgeisydd a/neu'r asiant sy'n gweithredu ar ran yr ymgeisydd yn cael ei wahodd i fod yn bresennol yn ystod y rhan berthnasol o'r ymweliad â'r safle os oes angen er mwyn caniatáu mynediad i'r safle ac ateb unrhyw ymholiadau ffeithiol gan Aelodau. Dylai Swyddogion hysbysu'r asiant a/neu'r ymgeisydd nad cyfle i drafod rhinweddau cynllunio'r achos yw bod yn bresennol yn y cyfarfod ar y safle, ond yn hytrach cyfle i Aelodau gael dealltwriaeth well am nodweddion y safle. Hefyd, bydd Swyddogion yn gwahodd Swyddogion perthnasol o'r APC a'r Awdurdodau Unedol cyfansoddol neu gyrff cyhoeddus (e.e. yr Awdurdod Prifffyrdd Lleol, yr Awdurdod Draenio, yr ymgymwrwr carthffosiaeth neu Cyfoeth Naturiol Cymru) i'r ymweliad â'r safle er mwyn iddynt ateb unrhyw gwestiynau technegol gan Aelodau.
- 4.7 Bydd unrhyw ymweliadau â safleoedd, a gaiff eu trefnu'n ffurfiol, yn gweithredu fel cyfarfod ffurfiol o'r Awdurdod, ac yn cyd-fynd â'r gweithdrefnau canlynol –
- Bydd Cadeirydd neu Ddirprwy Gadeirydd y Pwyllgor CMAHT yn cadeirio ac yn rheoli'r ymweliad â'r safle;
  - Bydd yr Aelodau yn aros gyda'i gilydd fel grŵp ac ni ddylent drafod yn unigol gydag unrhyw un nad yw'n bresennol yn ffurfiol fel rhan o'r ymweliad â'r safle;
  - Bydd Swyddogion yn cael cais gan Gadeirydd neu Ddirprwy Gadeirydd y Pwyllgor CMAHT i dynnu sylw at yr agweddau hynny a arweiniodd at benderfynu bod angen ymweld â'r safle. Caiff yr Aelodau gyfle i ofyn cwestiynau i Swyddogion yr Awdurdod, Swyddogion cyrff cyhoeddus eraill a/neu'r ymgeisydd/asiant sy'n gweithredu ar ran yr ymgeisydd;
  - Dylai'r Aelodau sicrhau bod yr ymweliad â'r safle wedi mynd i'r afael â'u hymholiadau er mwyn ffurfio eu barn ynglŷn â'r agweddau hynny a arweiniodd at benderfynu bod angen ymweld â'r safle. Ni ddylai'r farn honno gael ei thrafod yng ngŵydd yr ymgeisydd a/neu'i asiant nac unrhyw drydydd parti;
  - Bydd y Gwasanaeth Cymorth Cynllunio yn cofnodi'r materion a godwyd gan yr Aelodau, a'r ymatebion a gafwyd. Caiff y nodiadau hynny eu dosbarthu i'r Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd a'r Swyddogion a oedd yn bresennol, er mwyn iddynt gael eu cymeradwyo cyn i adroddiad gael ei roi yn eu cylch yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor CMAHT er mwyn eu cymeradwyo'n ffurfiol. Caiff unrhyw newidiadau a gymeradwyir i'r nodiadau eu cynnwys yn nodiadau cymeradwy'r cyfarfod.

## 5.0 Cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio a Hawliau Tramwy

5.1 Mae *Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990*, Adran 54A a *Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004*, Adran 38(6) yn datgan fel a ganlyn: “Applications for planning permission, or for the renewal of planning permission, should be determined in accordance with the approved or adopted development plan for the area, unless material considerations indicate otherwise”. Felly, lle mae'r Cynllun Datblygu yn berthnasol, mae'n rhaid i'r Awdurdod benderfynu ynghylch ceisiadau yn unol â'r cynllun oni bai fod ystyriaethau perthnasol yn dynodi fel arall. Mae'r gofyniad statudol hwn yn un o'r egwyddorion sylfaenol ar gyfer dull yr Awdurdod o wneud penderfyniadau.

5.2 Y Cynllun Datblygu yw'r Cynllun a fabwysiadwyd ar gyfer yr ardal sef, yn yr achos hwn, y Cynllun Datblygu Lleol (Rhagfyr 2013).

5.3 Bydd Agendâu'r Pwyllgor CMAHT yn cynnwys adroddiadau ar y canlynol:

a) 'Eitemau ar gyfer Penderfyniad' – sy'n cynnwys ceisiadau (yn geisiadau cynllunio a gwyradau hawliau tramwy) ac unrhyw faterion eraill sy'n gysylltiedig â Rheoli Datblygu y mae'n ofynnol i Aelodau wneud penderfyniad arnynt; ac

b) 'Eitemau i'w Nodi' – y mae penderfyniad wedi cael ei wneud arnynt yn barod dan Bwerau wedi'u Dirprwyo. Gall Aelodau gymryd rhan mewn dadl neu ofyn cwestiynau i'r Swyddogion am yr 'Eitemau i'w Nodi'

Mae adroddiadau ar geisiadau nad yw'r awdurdod i benderfynu yn eu cylch wedi'i ddirprwyo yn adroddiadau llawn sy'n cynnwys yr holl ystyriaethau perthnasol (yn nhermau cynllunio) a materion i alluogi Aelodau i wneud penderfyniad ar gais. Mae cyfraith achosion yn dynodi nad yw adroddiadau gan Swyddog Cynllunio i'r Pwyllgor Cynllunio wedi'u bwriadu, ac na ddylent fod wedi'u bwriadu, i ddarparu ymdriniaeth ddysgedig ag egwyddorion cyfreithiol perthnasol sy'n ailadrodd holl fanylion y ffeithiau perthnasol i Aelodau'r Pwyllgor sy'n gyfrifol am y penderfyniad. Dylai adroddiadau i'r Pwyllgor Cynllunio a Hawliau Tramwy gael eu paratoi ar ran y Rheolwr Cynllunio a Threftadaeth fel a ganlyn –

- Dylai adroddiadau fod yn fanwl gywir a chynnwys, ymhlith pethau eraill, grynodedd o sylwedd unrhyw sylwadau gan drydydd parti a barn y rhai yr ymgynghorwyd â hwy, fel a argymhellir gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.
- Dylai gwybodaeth berthnasol gynnwys esboniad clir, cryno a chynhwysfawr o'r polisi a'r canllawiau cenedlaethol perthnasol; y cynllun datblygu; hanes y safle neu hanes cysylltiedig; ac unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill.
- Dylai adroddiadau gynnwys casgliadau technegol sy'n rhoi cyfiawnhad eglur dros yr argymhelliad.

- Os yw'r argymhelliad yn yr adroddiad yn groes i ddarpariaethau'r cynllun datblygu, mae'n rhaid i'r ystyriaethau perthnasol sy'n cyfiawnhau gwyro oddi wrth y cynllun datblygu gael eu datgan yn glir.
  - Dylai adroddiadau fod yn ysgrifenedig a dylent gynnwys argymhelliad ysgrifenedig ar gyfer gweithredu. Dylid osgoi rhoi adroddiad ar lafar sy'n cyflwyno gwybodaeth a/neu sylwadau ychwanegol nad ydynt eisoes wedi'u cynnwys yn yr adroddiad ysgrifenedig (ac eithrio i ddiweddarau adroddiad neu i grynhoi sylw hwyr) a dylid cofnodi adroddiad llafar o'r fath yn ofalus pan fo'n digwydd.
- 5.4 Dylai'r Swyddog Achos perthnasol, neu Swyddog ar ei ran, ddarparu cyflwyniad cryno ar bob cais cynllunio ar yr agenda nad yw'r awdurdod i benderfynu yn ei gylch wedi'i ddirprwyo, a hwnnw'n cynnwys darlun o leoliad y safle, cynlluniau sy'n dangos y cynigion, ffotograffau ac unrhyw ddarluniau eraill yr ystyrir eu bod yn briodol. Dylai Swyddogion dybio bod Aelodau wedi adolygu'r adroddiadau ar geisiadau nad yw'r awdurdod i benderfynu yn eu cylch wedi'i ddirprwyo cyn y cyfarfod ac felly dim ond crynodeb byr o'r materion allweddol ac argymhelliad ddylent ei gyflwyno.
- 5.5 Gall aelodau o'r cyhoedd siarad mewn perthynas ag 'Eitemau ar gyfer Penderfyniad' ac mae'n rhaid i rybudd i siarad gael ei roi yn unol â'r 'Cynllun Siarad Cyhoeddus'. Ni ddylai unrhyw siarad cyhoeddus ddigwydd mewn perthynas ag 'Eitemau i'w Nodi'. Gall Aelodau sydd wedi datgan buddiant personol ac sy'n rhagfarnu mewn mater penodol ddal i wneud cais i siarad dan Gynllun Siarad Cyhoeddus yr Awdurdod. Gallant wneud cais i'r Pwyllgor Safonau am Oddefeb i Siarad hefyd (gweler y Polisi Goddefeb i Aelodau am fanylion).
- 5.6 Dylai'r Swyddog Monitro neu rywun arall sy'n ddigon cymwys wastad bod yn bresennol yn y cyfarfod i sicrhau bod gweithdrefnau wedi cael eu dilyn yn briodol.
- 5.7 Dylai Cadeirydd a/neu Ddirprwy Gadeirydd y Pwyllgor CMAHT gael sesiwn briffio gyda Swyddogion cyn cyfarfod y Pwyllgor CMAHT, i roi cymorth i gynnal cyfarfod y Pwyllgor mewn modd effeithiol.

## **Sylwadau**

- 5.8.1 O bryd i'w gilydd efallai y bydd Aelodau'r Pwyllgor CMAHT yn cael gohebiaeth a gwybodaeth berthnasol arall gan bobl neu grwpiau a chanddynt fuddiant yng nghanlyniad cais cynllunio sy'n mynd i fod yn cael ei benderfynu ac fe all fod pwysau i ymateb. Yn achlysurol bydd Aelod yn cael swm sylweddol o ohebiaeth ddigymell a gwybodaeth arall am geisiadau mwy dadleuol. Cynghorir Aelodau i beidio ag ymateb i'r ohebiaeth hon ond yn hytrach i'w hanfon ymlaen at y Rheolwr Cynllunio a Threftadaeth er mwyn i'r wybodaeth allu cael ei hadolygu ac er mwyn i unrhyw wybodaeth newydd neu berthnasol gael ei dwyn i sylw'r holl Aelodau yn y cyfarfod.
- 5.8.2 Bydd adroddiad y swyddog i'r Pwyllgor CMAHT yn cynnwys crynodeb o unrhyw faterion a godwyd gan drydydd partion sydd wedi dod i law cyn cyhoeddi'r Agenda.

Ar hyn o bryd mae unrhyw ohebiaeth sy'n dod i law wedi i'r agenda gael ei chylchredeg yn cael ei chyflwyno ar lafar yn y Pwyllgor. Mae hyn yn golygu weithiau y rhoddir mwy o arwyddocâd i ohebiaeth hwyr na llythyrau sy'n dod i law o fewn y terfyn amser ar gyfer ysgrifennu adroddiadau gan eu bod yn cael eu darllen ar lafar yn y cyfarfod a chan mai dyma'r wybodaeth olaf y mae Aelodau'n ei chlywed cyn iddynt wneud penderfyniad. Ar ben hynny, nid yw'r broses yn rhoi'r cyfle i Swyddogion nac Aelodau roi ystyriaeth lawn i unrhyw faterion a godir, a allai arwain at ohirio eitem.

- 5.8.3 Er mwyn mynd i'r afael â'r anghysondeb hwn ac er mwyn tegwch, o 1 Mai 2016, bydd gohebiaeth sy'n dod i law wedi i agenda'r Pwyllgor CMAHT gael ei chyhoeddi'n cael ei chyflwyno yn y ffordd strwythuredig ganlynol: bydd unrhyw ohebiaeth (ar ffurf copi caled neu'n electronig) sy'n dod i law Aelodau a/neu swyddogion o fewn tri diwrnod gwaith i'r pwyllgor yn cael ei diystyru fel gohebiaeth sy'n rhy hwyr. Mae hyn ar yr amod bod y cyfnod ymgynghori lleiaf o 21 diwrnod wedi mynd heibio (neu gyfnod pellach yn achos ail ymgynghoriad). Ni fydd y llythyrau hyn yn cael eu ffeilio a byddant yn cael eu diystyru ac eithrio dan amgylchiadau eithriadol lle codir mater newydd nad yw wedi cael sylw'n flaenorol ac a allai effeithio ar y penderfyniad a fydd yn cael ei wneud. Bydd hyn yn digwydd yn ôl disgrisiwn y Rheolwr Cynllunio a Threftadaeth mewn ymgynghoriad â'r Prif Weithredwr ac fel y cytunwyd â Chadeirydd neu Ddirprwy Gadeirydd y Pwyllgor CMAHT.
- 5.8.4 Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, cynhelir cyfarfodydd y Pwyllgor CMAHT ar ddydd Mawrth. Y dyddiad terfyn ar gyfer gohebiaeth hwyr yw 5pm ar y dydd lau blaenorol. Bydd y weithdrefn hon yn caniatáu o leiaf ddau ddiwrnod gwaith clir i ohebiaeth hwyr gael ei choladu a'i chyflwyno i Aelodau gyda'r cyngor priodol gan swyddogion.
- 5.8.5 Bydd gohebiaeth hwyr sy'n dod i law cyn y terfyn amser h.y. wedi i'r agenda gael ei chyhoeddi ond cyn 5pm ar y dydd lau cyn cyfarfod y Pwyllgor CMAHT, yn cael ei chyflwyno ar lafar yn y cyfarfod gan roi'r un faint o amlygrwydd a phwys iddi ag sy'n ofynnol o ystyried ei pherthnasedd. Ar adegau bydd yr wybodaeth newydd mor sylweddol fel ei bod yn arwain at ohirio'r cais. Lle nad yw'r Cais Cynllunio'n cael ei ohirio bydd y Cadeirydd yn caniatáu cyfnod priodol i'r Aelodau ddarllen y deunydd newydd cyn mynd ymlaen i ystyried yr eitem. Y Swyddog Cynllunio fydd yn gyfrifol am gyflwyno unrhyw ohebiaeth neu wybodaeth newydd sy'n berthnasol i'r Pwyllgor CMAHT.
- 5.9 Mae dyletswydd ar Aelodau i ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynir i'r Awdurdod o ganlyniad i ymgynghori â chyrff sydd â buddiant neu o ganlyniad i hysbysiad cyhoeddus neu hysbysiad ar gyfer cymdogion. Wrth wneud hynny mae angen penderfynu pa sylwadau sy'n berthnasol i'r penderfyniad a fydd yn cael ei wneud ac, os felly, faint o bwys fydd yn cael ei roi iddynt. Ni ddylid dod i'r casgliad hwn nes bod yr holl wybodaeth a dadleuon wedi cael eu cyflwyno a'u hystyried.
- 5.10 Dylai Aelodau gymryd gofal cyn cyflwyno gwybodaeth newydd i'r ddadl yn y Pwyllgor CMAHT a allai arwain at ohirio ystyriaeth i fater neu a allai beri i'r Pwyllgor CMAHT wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth y ceir wedi hynny ei bod yn anghywir. Lle mae Aelod yn cael gwybodaeth berthnasol mewn perthynas â chais nad yw wedi'i chynnwys yn yr adroddiad i'r Pwyllgor, lle bynnag y bo'n bosibl dylai'r Aelod hysbysu'r Rheolwr

Cynllunio a Threftadaeth neu Swyddog Achos y cais ar unwaith fel y gellir cymryd yr wybodaeth i ystyriaeth cyn y cyfarfod.

- 5.11 Os ceir diwygiad perthnasol i unrhyw gais cynllunio ar ôl paratoi'r adroddiad i'r Pwyllgor dylai Cadeirydd neu Ddirprwy Gadeirydd y Pwyllgor CMAHT a'r Rheolwr Cynllunio a Threftadaeth mewn ymgynghoriad â'r Prif Weithredwr ystyried a ddylid tynnu'r eitem oddi ar yr agenda cyn y Pwyllgor CMAHT.
- 5.12 Lle mae cais yn mynd ymlaen i'r Pwyllgor CMAHT a bod gwybodaeth berthnasol newydd yn dod i'r fei yn y cyfarfod, gall y Pwyllgor benderfynu:
- (a) gohirio ystyriaeth i'r cais neu
  - (b) ddirprwyo'r penderfyniad yn dilyn unrhyw ailymgynghori angenrheidiol.

Mewn achosion eraill, lle mae'r Rheolwr Cynllunio a Threftadaeth mewn ymgynghoriad â'r Prif Weithredwr yn ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny, gall Swyddogion gyflwyno gwybodaeth newydd ar lafar. Fodd bynnag, lle mae'r wybodaeth yn sylweddol, fel arfer bydd angen gohirio ystyriaeth gan y Pwyllgor er mwyn paratoi arfarniad ysgrifenedig a'i gyflwyno i gyfarfod o'r Pwyllgor CMAHT yn y dyfodol.

## **6.0 Penderfyniadau sy'n Groes i Argymhellion Swyddogion a/neu'r Cynllun Datblygu**

- 6.1 Mae'r Llysoedd wedi mynegi'r farn, lle mae Pwyllgor Cynllunio'n gwneud penderfyniad sy'n groes i argymhelliad y Swyddogion (boed i gymeradwyo neu wrthod), y dylai'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw fod yn seiliedig ar ystyriaethau cynllunio cadarn. Prin y bydd amgylchiadau personol ymgeisydd yn darparu rhesymau o'r fath.
- 6.2 Pryd bynnag y mae'r Pwyllgor CMAHT o blaid penderfynu ynghylch cais cynllunio mewn modd sy'n groes i argymhelliad Swyddogion, mae'n rhaid i'r Pwyllgor CMAHT roi diffiniad eglur o'r rhesymau cynllunio dros wrthod argymhelliad y Swyddogion gan restru'r rhesymau hynny ac yna bleidleisio ar y rhesymau hynny. Mae'n rhaid cofnodi'r rhesymau yn y cofnodion a bydd y cais yn cael ei ohirio tan gyfarfod nesaf y Pwyllgor CMAHT yn unol â'r darpariaethau canlynol.
- 6.3 Yn y cyfarfod dilynol o'r Pwyllgor CMAHT bydd y Rheolwr Cynllunio a Threftadaeth yn ymateb mewn adroddiad ysgrifenedig pellach i'r rhesymau a roddwyd gan y Pwyllgor CMAHT dros beidio â derbyn yr argymhelliad cynharach. Dylai'r adroddiad gynnwys yr wybodaeth ganlynol: –
- (a) (lle mae Aelodau o blaid rhoi caniatâd yn groes i argymhelliad i wrthod) nodi amodau drafft i'w cynnwys yn y caniatâd a, lle y bo'n briodol, telerau unrhyw rwymedigaeth gynllunio/cytundeb cyfreithiol priodol; neu

- (b) (Ile mae Aelodau o blaid gwrthod caniatâd yn groes i argymhelliad i gymeradwyo) nodi rhesymau ffurfiol dros wrthod gan adlewyrchu barn flaenorol y Pwyllgor CMAHT; hysbysu ynghylch y dystiolaeth a fyddai ar gael i gyfiawnhau'r rhesymau hynny; a chynnwys unrhyw resymau eraill dros wrthod y mae'r Swyddogion yn ystyried y gellid eu cyfiawnhau pe bai apêl.

Os yw'r Pwyllgor CMAHT o blaid peidio â derbyn argymhelliad dilynol y Rheolwr Cynllunio a Threftadaeth, bydd yn ystyried unwaith eto ei resymau dros beidio â derbyn cyngor y Swyddogion. Dylai'r rhesymau hynny gael eu cofnodi'n ffurfiol wedyn yng nghofnodion y cyfarfod dilynol hwnnw.

- 6.4 Mae'n rhaid i ceisiadau nad ydynt yn gyson â'r cynllun datblygu gael eu hadnabod cyn gynted â phosibl. Wedyn mae'n rhaid eu hysbysebu felly, fel sy'n ofynnol dan Gyfarwyddyd Cynllunio Gwlad a Thref (Hysbysu) (Cymru) 2012. Os bwriedir cymeradwyo cais o'r fath am ddatblygiad i'w hysbysu fel a ddiffinnir yn y Cyfarwyddyd uchod, mae'n rhaid i'r ystyriaethau perthnasol sy'n arwain at y casgliad hwn gael eu dangos yn eglur. Os yw adroddiad y Swyddogion yn argymhell cymeradwyo dylid cynnwys y cyfiawnhad dros hyn, yn llawn, yn yr adroddiad hwnnw.

## 7.0 Cynigion Datblygu a Gyflwynir gan Aelodau a Swyddogion

- 7.1 Mae'n hawdd i gynigion i'r Awdurdod gan Aelodau a Swyddogion mewn swydd a blaenorol<sup>1</sup> a'u ffrindiau agos arwain at amheuan ynghylch amhriodoldeb. Mae'r un peth yn wir am gynigion ar gyfer datblygiad gan yr Awdurdod ei hun neu am achosion lle mae gan yr Awdurdod fuddiant yn y datblygiad arfaethedig. Gall cynigion fod ar ffurf ceisiadau cynllunio neu gynigion cynllun datblygu. Ym mhob gohebiaeth a chyfarfod a.y.b., dylai Aelodau a swyddogion o'r fath nodi eu statws.
- 7.2 Mae'n rhaid i Aelodau mewn swydd sy'n gweithredu fel asiantau i bobl sy'n canlyn arni â mater cynllunio o fewn yr Awdurdod beidio â chwarae unrhyw ran yn y broses benderfynu ar gyfer y cynnig hwnnw. Yn yr un modd, os bydd Aelodau yn cyflwyno'u cynnig eu hunain i'r Awdurdod, ni fyddant yn cymryd unrhyw ran yn y gwaith o'i brosesu a'i ystyried.
- 7.3 Caiff cynigion o'r fath eu cyflwyno i'r Pwyllgor CMAHT fel prif eitemau yn hytrach na bod Swyddogion yn ymdrin â hwy dan bwerau a ddirprwywyd iddynt. Mae'r un peth yn wir am geisiadau a.y.b. a wnaed gan Aelodau a Swyddogion blaenorol. Bydd cynigion ar gyfer datblygiadau gan yr Awdurdod ei hun yn cael eu trin yn yr un ffordd yn union â'r rhai gan ddatblygwyr preifat.

---

<sup>1</sup> 'Blaenorol' = y Swyddogion a'r Aelodau a adawodd yr Awdurdod lai na 12 mis cyn cyflwyno'u cais cynllunio

- 7.4 Lle ceir cynnig gan Swyddog (neu gan aelod o'i deulu neu gan ffrind agos), mae'n rhaid i'r Swyddog –
- (a) hysbysu'r Rheolwr Cynllunio a Threftadaeth pan fo'r cais yn cael ei wneud neu gyn gynted ag y daw i sylw'r Swyddog;
  - (b) peidio â chymryd unrhyw ran yn y broses benderfynu; a
  - (c) chydymffurfio â darpariaethau perthnasol eraill yn y Protocol hwn.
- 7.5 Lle ceir cynnig gan Aelod (neu rywun y mae'n byw gydag ef neu y mae'n cael ei gyflogi ganddo neu y mae ganddo gysylltiad personol agos ag ef), neu lle mae gan yr Aelod (am unrhyw reswm) fuddiant sy'n rhagfarnu yn y mater, yna mae'n rhaid i'r Aelod –
- (a) hysbysu'r Rheolwr Cynllunio a Threftadaeth pan fo'r cais yn cael ei wneud neu gyn gynted ag y daw i sylw'r Aelod; a
  - (b) chydymffurfio â darpariaethau perthnasol eraill yn y Protocol hwn.
- ac fe all –
- (c) fynychu un o gyfarfodydd yr Awdurdod ond dim ond at ddiben cyflwyno sylwadau mewn perthynas â'r cynnig, ar yr amod y caniateir i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod at yr un diben. Ar ôl gwneud sylwadau o'r fath mae'n rhaid i'r Aelod:
  - (d) adael y cyfarfod ar unwaith; a,
  - (e) pheidio â chymryd unrhyw ran yn y broses benderfynu.
- 7.6 Lle mae gan Aelod fuddiant sy'n rhagfarnu mewn mater (fel a ddiffinnir yng Nghod Ymddygiad yr Awdurdod ar gyfer Aelodau) ni ddylai'r Aelod fynd at Swyddogion yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol na gwneud sylwadau ar lafar nac yn ysgrifenedig mewn perthynas â'r cais ac ni ddylai geisio dylanwadu ar benderfyniad mewn perthynas ag ef, (er enghraifft trwy geisio galw cais i mewn i gael ei ystyried gan y Pwyllgor CMaHT yn hytrach na than y Cynllun Dirprwyo) ac eithrio fel a ganiateir ym mharagraff 7.4(A) (c) i (e) uchod.
- 7.7 Ni ddylai swyddogion o fewn yr Awdurdod gyflwyno ceisiadau i'r Awdurdod ar ran trydydd partion, ac eithrio fel rhan o'u dyletswyddau fel cyflogion yr Awdurdod.

## 8.0 Hyfforddi a Monitro

- 8.1 Mae'n rhaid i Aelodau fynychu sesiwn sefydlu gychwynnol a sesiynau hyfforddi rheolaidd i gael arweiniad mewn perthynas â rheoliadau a gweithdrefnau cynllunio ac mewn perthynas â datgelu buddiannau personol.

- 8.2 Mae adroddiad y Comisiwn Archwilio “Building in Quality” yn argymhell y dylai Aelodau ailystyried sampl o ganiatadau cynllunio a weithredwyd i asesu ansawdd y penderfyniadau. Dylai adolygiad o’r fath wella ansawdd a chysondeb prosesau penderfynu, gan felly gryfhau hyder y cyhoedd yn y system gynllunio, a gall helpu gydag adolygiadau o bolisiau cynllunio.
- 8.3 Dylai’r Rheolwr Cynllunio a Threftadaeth drefnu adolygiadau o’r fath.
- 8.4 Mae’n well cynnal adolygiadau o leiaf yn flynyddol. Byddant yn cynnwys enghreifftiau o ystod eang o gategoriâu megis datblygiadau pwysig a mân ddatblygiadau; gwyradau a ganiateir; eitemau a ddirprwywyd; apeliadau a gadarnhawyd; gwaith i adeiladau rhestredig ac achosion gorfodi. Bydd nodiadau briffio’n cael eu paratoi ar bob achos. Bydd y Pwyllgor CMAHT yn ystyried yr adolygiad yn ffurfiol ac yn penderfynu a yw’n esgor ar yr angen i ailystyried unrhyw bolisiau neu arferion.

## 9.0 Cwynion / Cadw Cofnodion

- 9.1 Pa bynnag weithdrefnau y mae awdurdod cynllunio yn eu gweithredu, mae’n debygol y bydd cwynion yn cael eu cyfleu. Fodd bynnag, dylai dilyn y canllawiau hyn leihau’n sylweddol yr achlysuron pan fo cyfiawnhad dros gwynion. Dylent hefyd ddarparu llai o reswm i bobl gwyno yn y lle cyntaf.
- 9.2 Canlyniad rhesymegol i fabwysiadu protocol lleol o arfer cynllunio da yw y dylai fod gan yr Awdurdod system gwynion gadarn. Mae gan yr Awdurdod weithdrefn ar gyfer ymdrin â chwynion ffurfiol. Dylid cofio bod achwynwyr sy’n honni bod y cod ymddygiad lleol statudol wedi cael ei dorri yn gallu cyfeirio eu honiadau’n ysgrifenedig yn uniongyrchol at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.
- 9.3 Er mwyn gallu ymchwilio’n llawn i gwynion a, beth bynnag, fel mater o arfer da cyffredinol, dylai’r drefn cadw cofnodion fod yn gynhwysfawr ac yn gywir. Byddai hepgoriadau ac anghywirdebau ynddynt eu hunain yn gallu achosi cwyn neu danseilio achos yr Awdurdod. Y rheol arweiniol yw y dylai pob ffeil ar gyfer cais cynllunio gynnwys cyfrif cywir o ddigwyddiadau trwy gydol oes y cais. Dylai fod yn bosibl i rywun nad yw’n gysylltiedig â’r cais hwnnw ddeall beth oedd y penderfyniad a pham a sut y cafodd ei wneud. Mae angen cymryd gofal arbennig gyda cheisiadau a benderfynir dan bwerau a ddirprwywyd i Swyddogion, lle nad oes atgyfeiriad at Bwyllgor. Dylai penderfyniadau o’r fath gael eu dogfennu a’u cofnodi mewn modd cystal â’r rhai a wneir gan Aelodau. Mae’r egwyddorion hyn yr un mor berthnasol i faterion gorfodi a materion sy’n ymwneud â’r cynllun datblygu.